



Ail Symposiwm Cenedlaethol Celfyddydau a Diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr
Canolfan y Celfyddydau Taliesin

Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PP - Dydd Gwener 20 Ionawr 2017 – 9.30am tan 1.30pm

Mae'r Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani (RCAC) yn falch o gyhoeddi Ail Symposiwm Cenedlaethol Celfyddydau a Diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd y digwyddiad, a gynhelir gan Ganolfan y Celfyddydau Taliesin, yn cynnwys yr artistiaid Artur Conka a Billy Kerry ynghyd â gwestai gan gynnwys Rosamaria Kostic Cisneros, dawnswraig broffesiynol, hanesyddawns, adolygydd, ac ysgolhaig Roma o Brifysgol Coventry ac Franziska Sauerbrey, cyd-sefydlwr gyda Isabel Raabe o'r swyddfa materion diwylliannol ym Merlin sydd hefyd yn anogwyr a chydlynwyr y prosiect rhyngwladol *RomArchive: Digital Archive of the Roma*. Bydd yr ystod amrywiol hon o siaradwyr sydd ag amrywiaeth o feysydd arbenigedd yn ysgogi sgysiau ymhlith y gynulleidfa parthed hinsawdd gyfoes celfyddydau'r Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r goblygiadau ehangach ar gymdeithas.

Cynhelir y digwyddiad cyffrous hwn yng nghyd-destun prosiect *Gypsy Maker 2*; sef y fenter RCAC unigryw sy'n hwyluso datblygu gwaith arloesol gan artistiaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd wedi'u hen sefydlu a rhai sy'n dod i'r amlwg. Nod y prosiect yw ysgogi trafodaeth ar draws cymunedau am y ffyrdd y mae'r celfyddydau yn parhau i hysbysu bywydau unigolion a chymunedau heddiw. Ar gyfer ail gyfnod hwn y prosiect, mae'r RCAC wedi comisiynu arddangosfeydd o waith newydd gan Artur Conka, Roma, a Billy Kerry, Sipsi Romani. Bydd enghreifftiau o waith y ddau artist yn cael eu harddangos yn Oriel Ceri Richards yn Nhaliesin yn ystod y symposiwm.

"Mae'r celfyddydau yn dod â mwynhad ac ysbrydoliaeth i'n bywydau beunyddiol. Mae cymryd rhan yn y celfyddydau boed fel unigolyn neu fel aelod o gymuned yn helpu i'n clymu ynghyd mewn dathliad o'n dynoliaeth gyffredin. Ond gall y celfyddydau hefyd ein helpu i ddeall beth sy'n nodweddiadol ac yn bwysig ei ddiogelu yn y gwahaniaethau sy'n diffinio pob un ohonom. Mae'r celfyddydau yn ein helpu i archwilio a mynegi'r pethau cyffredin rhyngom a'n lle yn y byd. Mae cymdeithas sydd yn deg ei meddwl ac yn oddefgar yn gwerthfawrogi ac yn parchu anghenion, diddordebau a chreadigrwydd pawb. Mae'n gymdeithas sy'n ddiamynedd at anfantais, sy'n croesawu cydraddoldeb ac yn dathlu amrywiaeth. Rydym am i'r celfyddydau yng Nghymru gynnwys pawb. Gwyddem y bydd hyn yn gwneud y celfyddydau yng Nghymru yn fwy bywiog, yn fwy cyffrous ac yn fwy perthnasol. Rydym yn ymestyn croeso cynnes i'r cyfraniad y bydd yr ail Symposiwm Cenedlaethol Celfyddydau a Diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ei wneud i'r ddaid honno". Nick Capaldi, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru.

"Rwyf wrth fy modd bod Taliesin yn cynnal symposiwm 2017 ac yn helpu i chwlu'r anwybodaeth a'r rhagfarn sy'n parhau o ran cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Unwaith eto, mae artistiaid ar flaen y gad o ran chwlu stereoteipiau a dod â goleuni a dealltwriaeth i'r hyn sy'n parhau i fod yn broblem ddifrifol yn ein cymdeithas" - Sybil Crouch, Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Canolfan y Celfyddydau Taliesin

*'Fel cynrychiolydd o brosiect rhyngwladol sydd ei hun yn ceisio chwlu rhagfarn trwy hyrwyddo diwylliant a'r celfyddydau, rydym yn argyhoeddedig y bydd *Gypsy Maker 2* yn chwarae rhan bwysig o ran adnabod a gwerthfawrogi diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr - sef diwylliant sydd wedi bodoli ers canrifoedd, sydd yn dra bywiog ac amrywiol hyd heddiw.'* Isabel Raabe a Franziska Sauerbrey, Anogwyr a Chyfarwyddwyr y Prosiect *RomArchive: Digital Archive of the Roma*.

Disgwylir y bydd y symposiwm hanner diwrnod a'r sioe arddangos cyffrous hyn yn ennyn diddordeb felly archebwch eich lle yn gynnar trwy ysgrifennu at y Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani (RCAC):

isaacblake@romaniarts.co.uk

